Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cylch Gorchwyl

# Y Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol

Gorffennaf 2024

---

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cylch Gorchwyl

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei gychwyn, ei reoli a'i fonitro gan y Cyngor ei hun a chan gyfres o Bwyllgorau y mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai pwerau iddynt. Daw'r pwyllgorau o dan y Cyngor o fewn y strwythur Llywodraethu. Heblaw am y meysydd lle mae'r Cyngor wedi dirprwyo tasgau diffiniedig a/neu'r awdurdod i weithredu iddynt, rôl ymgynghorol sydd gan y Pwyllgorau. Maen nhw'n adrodd i'r Cyngor ar berfformiad o ran y gweithgareddau hynny sy'n dod o fewn cylch gorchwyl pob Pwyllgor. Bydd y Pwyllgorau'n tynnu sylw'r Cyngor at unrhyw faterion sydd o bryder, neu feysydd ar gyfer gwella hefyd.

Mae tri phwyllgor ac un is-bwyllgor gyda grymoedd dirprwyedig:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl
- Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl
- Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb

Mae Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb yn ymgorffori gwaith y pwyllgorau blaenorol Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb Strategol a'r Gymraeg gan sicrhau dull integredig a chydlynol o bob un o'r meysydd i ddatblygu a chynyddu pob un.

Mae gan Is-bwyllgor Cyfalaf y Cyngor hefyd rymoedd i wneud penderfyniadau am grantiau cyfalaf gan wneud argymhellion i'r Cyngor am geisiadau grant sy'n uwch na'i awdurdod. Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfathrebu i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb ei gyngor a, lle bo'n briodol, ei benderfyniadau. Felly, mae'n cynnwys ei waith yn natblygiad polisi a phrosesau perthnasol ar draws gwaith ehangach y Cyngor gan gynnwys datblygu rhaglenni grant.

Mae hefyd un Grŵp – Iechyd a Diogelwch – sy'n adrodd i'r Cyngor drwy ei gofnodion a'i Adroddiad Blynyddol sy'n mynd i'r Cyngor gan Gadeirydd y Grŵp, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes.

Pennir cylch gorchwyl penodol y Pwyllgor hwn isod.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn. Caiff y ddogfen hon ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024.

### Rôl y Pwyllgor:

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol i'w gynorthwyo i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â recriwtio, cadw a rheoli staff; mewn perthynas â thâl ac amodau gwasanaeth wrth ddiwallu anghenion llywodraethu'r Cyngor

a'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer y sefydliad; ac er mwyn sicrhau ei fod gwneud cyfraniad effeithiol at gyflawni nod strategol ac anghenion busnes y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol hefyd am bennu a monitro targedau perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr, ac am gyflwyno argymhellion i'r Cyngor am gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd bob blwyddyn, yn amodol ar y cyfyngiadau a sêl bendith Llywodraeth Cymru.

## 1. Penodiadau:

Goruchwylio, cynghori ar, a monitro'r broses Benodiadau. Mae hyn yn cynnwys:

1.1 Recriwtio'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr

1.2 Cynghori Cadeirydd y Cyngor ar recriwtio darpar-aelodau i'r Cyngor gan gynnwys gofynion o ran cynllunio olyniaeth, gan gymryd canlyniadau archwiliadau o sgiliau aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgorau i ystyriaeth

1.3 Monitro pa mor briodol yw'r prosesau ar gyfer gwneud penodiadau i'n strwythurau llywodraethu ac ymgynghorol (Aelodau'r Pwyllgor a Chydweithwyr Celfyddydol).

## 2. Cadw trosolwg o AD:

2.1 Monitro system cydnabyddiaeth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru ochr yn ochr â'r sefydliadau meincodi priodol, er mwyn denu, cadw a chymell staff â'r cymwyseddau priodol mewn marchnad gystadleuol, yn amodol ar gytundeb priodol Llywodraeth Cymru, ac o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.

2.2 Monitro polisïau sy'n ymwneud â recriwtio, dethol, hyfforddi, cymell, datblygu, perfformiad, gwobrwyo a chadw staff.

2.3 Cynghori a monitro dangosyddion ac adroddiadau allweddol ym maes AD.

2.4 Ystyried a phenderfynu ar apelau perthnasol o dan delerau'r polisïau Cwynion, Disgyblu ac Aflonyddu, a Gwerthuso Swyddi.

2.5 Gweithio ar y cyd â meysydd eraill y sefydliad, gan gynnwys y Tîm Arwain Gweithredol, Cyfathrebu a grwpiau gorchwyl a phrosiectau/rhaglenni penodol, i nodi a symud ymlaen feysydd gwaith cysylltiedig a chynyddu eiriolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gyhoeddi cyflawniadau. Mae'r grwpiau tasg penodol yn cynnwys meysydd strategol fel y Gymraeg, Cydraddoldeb a Chyfiawnder Hinsawdd.

## 3. Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr:

3.1 Mae'r Pwyllgor yn cefnogi Cadeirydd y Cyngor wrth bennu ac argymell targedau perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr i'r Cyngor, a hynny gan gymryd strategaethau a blaenoriaethau cymeradwy'r Cyngor i ystyriaeth. Yn hynny o

beth, mae gofyn i'r Pwyllgor gymryd y canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i ystyriaeth.

3.2 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu cyflawniad y targedau perfformiad blynyddol a bennwyd ar gyfer y Prif Weithredwr.

3.3 Ar ôl cymryd cyflawniad y targedau i ystyriaeth, y Pwyllgor sy'n gyfrifol am argymell dyfarniad cyflog blynyddol y Prif Weithredwr, a hynny'n amodol ar y terfynau y mae Llywodraeth Cymru'n eu pennu.

**Y Cadeirydd:** Aelod o'r Cyngor

**Penodwyd gan:** Y Cyngor

**Aelodau:** Wrth benodi aelodau'r Cyngor, bydd y Cyngor yn penodi un aelod i weithredu fel Cadeirydd, ac un arall i ddirprwyo fel Cadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd.

Bydd y pwyllgor yn cynnwys 6 aelod a benodir gan y Cyngor. Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod o'r Cyngor. Bydd o leiaf 2 aelod yn aelodau o'r Cyngor, ac o leiaf 1 yn aelod annibynnol.

Gall Cadeirydd y Cyngor fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i arsylwi, a chymryd rhan yn y gwaith o bennu targedau'r Prif Weithredwr ac asesu ei b/pherfformiad.

Caiff gweithdrefnau eu mabwysiadu a'u pennu yn y Cylch Gorchwyl yma er mwyn sicrhau y caiff aelodau'r Cyngor eu heithrio o unrhyw drafodaethau am eu tâl eu hunain os bydd achos o'r fath yn codi yn y dyfodol.

Ni cheir penodi unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn aelod o'r Pwyllgor.

Gofynnir i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes fod yn bresennol mewn cyfarfodydd oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor yn pennu fel arall. Fodd bynnag, rhaid i'r Prif Weithredwr beidio â chymryd rhan na bod yn bresennol mewn unrhyw drafodaeth am ei dâl/thâl (ac eithrio i ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor).

Bydd disgwyl i gynrychiolydd o'r Adran Adnoddau Dynol fynychu fel rheol hefyd. Gellir gwahodd Cyfarwyddwyr ac uwch aelodau o staff i fynychu hefyd pan fo'r Pwyllgor yn trafod meysydd o risg, neu weithgareddau sydd o fewn maes cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw.

**Cworwm:** 3 aelod (a rhaid i ddau ohonynt for yn aelodau o'r Cyngor)

**Atebolrwydd:** Mae'r Pwyllgor yn rhwym wrth god moesegol y Cyngor a amlinellir yn y Cod Arferion Gorau. Gofynnir i aelodau lenwi ffurflen mynegiant o ddiddordeb yn flynyddol, a darparu diweddariadau os oes newid yn

amgylchiadau unrhyw aelod. Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau ym mhob cyfarfod hefyd.

Rhaid i aelodau'r pwyllgor beidio â bod yn bresennol mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'u dyfarniad cyflog eu hunain nac unrhyw argymhellion cysylltiedig.

| | |
|---|---|
| Cyfarfodydd: | Tair gwaith y flwyddyn fel rheol. Pennir y dyddiadau ymlaen llaw. |
| Papurau: | Caiff papurau eu dosbarthu i aelodau'r Cyngor wythnos cyn y cyfarfod. Caiff yr holl bapurau a'r cofnodion sy'n dilyn eu ffeilio yn system rheoli data a chofnodion electronig y Cyngor o dan Cyfarfodydd / Y Cyngor a'r Pwyllgorau / Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol. |
| Adrodd: | Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn. Y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes a chynrychiolydd o'r Adran Adnoddau Dynol. |
| Cofnodion: | Yng ngoleuni'r nifer gyfyngedig o gyfarfodydd a gynhelir, darperir y cofnodion ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor yn hytrach na llunio adroddiad blynyddol ffurfiol. Fodd bynnag, caiff yr arfer hwn ei adolygu os bydd amlder y cyfarfodydd ac ehangder y busnes a drafodir yn cynyddu. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn sicrhau y cedwir cofnodion cyflawn yn electronig ac ar bapur. |
| Diweddariad: | Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth Ariannol yn flynyddol. Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2024. |